# Y BWRDD GWEITHREDOL

## DYDD LLUN, 9FED MAI, 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
H.A.L. Evans, L.D. Evans, D.M. Jenkins, G.O. Jones, T.J. Jones, P.A. Palmer, L.M. Stephens a J. Tremlett

**Hefyd yn bresennol fel sylwedydd:**
Y Cynghorydd P.Hughes-Griffiths

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

| | | |
|---|---|---|
| Mr M. James | - | Y Prif Weithredwr |
| Mr C. Moore | - | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol |
| Mr J. Morgan | - | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol |
| Ms R. Mullen | - | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd |
| Mr R. Sully | - | Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant |
| Ms W. Walters | - | Prif Weithredwr Cynorthwyol |
| Mr J. Fearn | - | Pennaeth Eiddo Corfforaethol |
| Mr I. Jones | - | Pennaeth Hamdden |
| Ms L. Rees Jones | - | Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith |
| Mrs M. Thomas | - | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 9.12 a.m. – 9.50 a.m.**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd. M.Gravell.

### 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

### 3. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan yr Aelodau.

### 4. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

### 5. DATBLYGU CWRS FFORDD GAEEDIG AR GYFER RASIO BEICS

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu cynigion ar gyfer datblygu cwrs ffordd gaeedig ar gyfer rasio beics. Roedd yr Awdurdod yn y broses o ddatblygu strategaeth beicio (a cherdded) ar gyfer y Sir, gyda'r nod o wneud y Sir yn "Ganolbwynt Beicio Cymru”.  Bydd tri phrif faes i'r strategaeth - llwybrau datblygu, digwyddiadau a seilwaith a byddai'n cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol ei hystyried yn y misoedd nesaf.

O ran seilwaith, un o'r meysydd allweddol sy'n cael ei ystyried yn hanfodol gan Beicio Cymru a Chwaraeon Cymru ar gyfer datblygu beicio ymhellach yng Nghymru yw cyfleusterau cwrs rasio ffordd gaeedig o safon.  Defnyddir cyrsiau ffordd gaeedig ar gyfer digwyddiadau chwaraeon beicio cystadleuol, rasys ffordd, digwyddiadau hamdden a drefnir, hyfforddi a gweithgareddau hyfforddiant ac fel lleoliadau beicio anffurfiol sy'n cynnig amgylchedd di-draffig diogel.

Mae Beicio Cymru a Chwaraeon Cymru wedi rhoi eu sêl bendith a'u cefnogaeth lwyr i gyfleuster ffordd gaeedig dan lifoleuadau pwrpasol yn Sir Gaerfyrddin. Cytunwyd ar gyllid yn rhaglen gyfalaf yr Awdurdod, ac ni ragwelir y bydd costau cynnal yn y dyfodol.  Byddai'r cyfleuster yn unol â'r Safon Brydeinig a hwn fyddai'r gorau yng Nghymru os nad yn y DU. Byddai'n denu gwersylloedd hyfforddi, rasys a digwyddiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**5.1 hysbysebu am fynegiannau o ddiddordeb gan dirfeddianwyr yn Sir Gaerfyrddin y gallai fod ganddynt ddiddordeb mewn cydweithio â'r Awdurdod a Beicio Cymru i ddatblygu'r cyfleuster ar eu tir;**

**5.2 bod yr Awdurdod yn arwain o ran gwaith dylunio ac adeiladu'r cyfleuster, ac y bydd hwn yn cael ei gafael drwy'r cytundeb fframwaith mewnol;**

**5.3 os bydd trydydd parti'n cael ei ffafrio, bydd yr Awdurdod yn llofnodi prif brydles â'r tirfeddiannwr, gan roi is-brydles i Beicio Cymru i weithredu'r cyfleuster, heb unrhyw gost i'r Awdurdod.**

## 6. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 7. Y GOLEUDY, CANOLFAN FENTER, DAFEN, LLANELLI

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 6 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad ynghylch dyfodol Canolfan Fenter y Goleudy, Dafen, Llanelli.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad.**

## 8. SAFLE YSGOL PANTYCELYN, LLANYMDDYFRI

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 6 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch dyfodol Safle Ysgol Pantycelyn yn Llanymddyfri.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**8.1 camu ymlaen ag Opsiwn 1, fel y nodwyd yn yr adroddiad;**

**8.2 cymeradwyo'r argymhellion eraill y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.**

____________________________ ______________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**